Hawdd ei Ddeall

# Creu Senedd i Gymru

## Adroddiad ar y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Adroddiad Ymgynghori Creu Senedd i Gymru** Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hydref 2018

# Contents


| | Page |
|---|---|
| **Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon** | **3** |
| **Ynglŷn â'r adroddiad hwn** | **5** |
| **Y nifer o Aelodau'r Cynulliad** | **7** |
| **Sut mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol** | **10** |
| **Pwy ddylai gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?** | **17** |
| **Pwy ddylai gael bod yn Aelod o'r Cynulliad?** | **21** |
| **Rhedeg etholiadau** | **23** |
| **Gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei redeg** | **26** |
| **Pa bethau all fod yn wahanol ar ôl gwneud yr holl newidiadau hyn?** | **28** |
| **Geiriau anodd** | **30** |

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair. Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Mae rhestr o'r **geiriau anodd** ar dudalen 30.

Cyn darllen yr adroddiad hwn darllenwch **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl** a **Ffurflen Ymateb Hawdd ei Deall Creu Senedd i Gymru**.

Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth am y materion y gofynnon ni i bobl am eu barn amdanyn nhw. Bydd eu darllen yn eich helpu i ddeall beth sydd yn yr adroddiad hwn. Mae'r ymgynghoriad wedi cau felly allwch chi ddim ymateb nawr.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.I gael y ddogfen hon mewn diwyg gwahanol cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Tîm Newidiadau Cyfansoddiadol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd Pierhead
Caerdydd, CF99 1NA

**Ffôn:** 0300 200 6565

**E-bost:** cysylltu@cynulliad.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yn Chwefror 2018 fe ofynnon ni i bobl ddarllen **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

Roedd hyn ynglŷn â syniadau ar gyfer newidiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fe ofynnon ni i bobl yng Nghymru beth oedd eu barn ynglŷn â'r newidiadau.

Fe roddodd pobl eu barn mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys:

- ffurflen ymateb

- ar y we

- mewn digwyddiadau.

Fe gawson ni fwy na 3,200 o ymatebion i'r cwestiynau.

Fe atebodd pobl y cwestiynau roedden nhw am eu hateb. Ni atebodd pawb y cwestiynau i gyd. Roedd yr ymatebion gan bobl a mudiadau yng Nghymru.

Mae hwn yn adroddiad ar y pethau a ddywedodd pobl wrthyn ni.

Byddwn yn defnyddio'r pethau a ddywedodd pobl wrthyn ni i wneud penderfyniadau am y newidiadau rydyn ni am eu gwneud.

# Y nifer o Aelodau'r Cynulliad

Fe ofynnon ni beth roedd pobl yn ei feddwl ynglŷn â faint o **Aelodau'r Cynulliad** sydd eu hangen arnon ni.

Mae **Aelodau'r Cynulliad** yn bobl sy'n cael eu hethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gallwch ddarllen am ein syniadau ar gyfer hyn ar dudalennau 9-11 yn **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma roedd y bobl oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i ddweud:**

- roedd 56 allan o bob 100 o ymatebion yn dweud bod arnon ni angen mwy o Aelodau'r Cynulliad.

- roedd 39 allan o bob 100 o ymatebion yn dweud nad oes arnon ni angen mwy o Aelodau'r Cynulliad.

- Roedd 5 allan o bob 100 o ymatebion yn dweud nad oedden nhw'n gwybod.

O’r bobl a ddywedodd bod arnon ni angen mwy o Aelodau’r Cynulliad roedd y rhan fwyaf yn dweud bod arnon ni angen 80 i 90 o Aelodau’r Cynulliad.

Mae pobl yn meddwl mai rhai o’r manteision o gael mwy o Aelodau’r Cynulliad fyddai:

- Cael barn gan wahanol bobl.

- Rhoi llais mwy cryf i Gymru.

- Helpu i gadw llygad ar Lywodraeth Cymru a’r pethau maen nhw’n wneud.

- Gwell **trafodaethau**.

Mae **trafodaeth** yn digwydd pan fydd pobl yn siarad am eu barn ar bethau. Efallai y bydd pleidlais arnyn nhw er mwyn gwneud penderfyniad.

- Gwell deddfau i Gymru.



Roedd rhai ymatebion yn meddwl y bydd yn rhaid i'r Cynulliad weithio ar fwy o bethau yn y dyfodol.

Roedd rhai ymatebion yn poeni am gost mwy o Aelodau'r Cynulliad.

Roedd rhai ymatebion yn poeni y byddai'r gost ychwanegol yn meddwl y byddai llai o arian ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill fel addysg neu iechyd.

# Sut mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol

Fe ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n feddwl ynglŷn â newid y ffordd rydyn ni'n pleidleisio am Aelodau'r Cynulliad.




Gallwch ddarllen am ein syniadau ar hyn ar dudalennau 12-21 yn **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma ddywedodd pobl ynghylch pa system bleidleisio fyddai orau:**

Byddai'n well gan 54 allan o bob 100 ymateb System **Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl**:

**Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV)**

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn gosod yr ymgeiswyr yn ôl y rhai maen nhw'n eu hoffi orau.

Er enghraifft, rhif 1 fyddai eu hoff ymgeisydd. Rhif 2 fyddai eu 2ail hoff ymgeisydd.



Byddai pob **etholaeth** yn dewis mwy nag un person i sefyll ar eu rhan.

Eich **etholaeth** yw eich ardal leol. Mae rhywun yn siarad ar ran eich ardal leol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Er enghraifft, mae Caerffili yn etholaeth yn ne Cymru a Wrecsam yn etholaeth yng ngogledd Cymru.

Rhai o'r rhesymau gafodd eu rhoi dros ddewis y System **Bleidlais Drosglwyddadwy Sengl** oedd:

- Mwy o ddewis i bleidleiswyr.

- Haws i'w defnyddio.

- Mae'n decach.

Byddai'n well gan 17 allan o bob 100 ymateb **Gynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg**.

**Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg**

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn dewis o restr o **bleidiau gwleidyddol** ac ymgeiswyr.

Mae **pleidiau gwleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac mae ganddyn nhw ymgeisydd ar gyfer etholiad.

Mae **pleidiau gwleidyddol** yn y Cynulliad yn cynnwys

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Y Blaid Lafur Gymreig
- Y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig.

Yng **Nghynrychiolaeth Gyfrannol y Rhestr Hyblyg** mae'r pleidiau yn dewis pa drefn y mae eu hymgeiswyr yn cael eu rhestru.

Mae pleidleiswyr yn gallu dewis pleidleisio dros drefn y blaid. Neu gall bleidleiswyr bleidleisio dros eu hoff ymgeisydd.

Os bydd digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, bydd yr ymgeisydd hwnnw yn mynd i ben y rhestr.

Os nad oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, yna bydd ymgeiswyr yn aros yn y drefn y bydd y blaid yn ei dewis.

Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddewis pa ymgeiswyr fydd yn cael y seddau.

Byddai'n well gan 16 allan o bob 100 o ymatebion y system **Gynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP)**.

Mae'r system **Gynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP)** yn ffordd o drefnu sut y mae senedd yn cael ei wneud allan o'r aelodau sy'n cael eu hethol. Mae'n haws ei alw'n system yr **MMP**.

Yn system yr **MMP** rydych chi'n cael dwy bleidlais. Mae eich pleidlais gyntaf i'r person yr hoffech chi ei gael i gynrychioli eich etholaeth.

Mae'r 2ail bleidlais ar gyfer plaid wleidyddol i gynrychioli eich **rhanbarth**.

Y mae pum **rhanbarth** y Cynulliad Cenedlaethol:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gorllewin De Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru.

Nid oedd gan 13 allan o bob 100 o ymatebion hoff ddewis allan o'r tri y gwnaethon ni awgrymu.

Fe ofynnon ni gwestiynau eraill ynglŷn ag ethol Aelodau'r Cynulliad.




Gallwch ddarllen am ein syniadau ar dudalennau 24 a 25 o **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma ddywedodd pobl:**

- Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebion bod angen gwneud newidiadau er mwyn helpu i wneud y Cynulliad yn fwy **amrywiaethol**.

> Mae **amrywiaethol** yn meddwl cael pobl o wahanol grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod neu hen ac ifainc.

- Dywedodd dros hanner yr ymatebion na ddylai Aelodau'r Cynulliad fedru **rhannu swydd**.

Mae **rhannu swydd** yn digwydd pan fydd dau o bobl yn rhannu gwaith un rôl.

- Roedd rhai ymatebion oedd yn cytuno â rhannu swydd yn dweud y byddai'n helpu mwy o bobl i ymgeisio mewn etholiad.

- Dywedodd rhai ymatebion oedd ddim yn cytuno â rhannu swydd bod y gwaith yn rhy bwysig i'w rannu.

# Pwy ddylai gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad?

Fe ofynnon ni ai yr un bobl sy'n pleidleisio yn **etholiadau llywodraeth leol** ddylai gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'n **etholiad llywodraeth leol** pan fyddwch chi'n pleidleisio ar gyfer person y buasech chi'n hoffi ei gael i redeg eich cyngor lleol.




Gallwch ddarllen am ein syniadau ar gyfer hyn ar dudalennau 26-31 yn **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma roedd y bobl oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i ddweud:**

Dywedodd 86 allan o bob 100 o ymatebion y dylai'r un bobl â'r rhai sy'n pleidleisio yn etholiadau'r llywodraeth leol gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.




Roedd 59 allan o bob 100 o'r ymatebion yn meddwl mai'r oed y dylai pobl gael dechrau pleidleisio yw 16 oed.

Rhai o'r rhesymau a gafodd eu rhoi dros adael i bobl bleidleisio yn 16 oed oedd:

- Byddai mwy o bobl yn pleidleisio.

- Byddai lleisiau pobl ifainc yn cael eu clywed

- Byddai pobl ifainc yn fwy tebygol o ddal ati i bleidleisio fel oedolion.

- Byddai dysgu mwy am wleidyddiaeth yn helpu pobl ifainc i bleidleisio. Byddai pobl ifainc yn dysgu mwy am fod yn rhan o gymdeithas.

Ond roedd rhai ymatebion yn meddwl efallai nad oedd pobl ifainc yn barod i bleidleisio.

Ac roedd rhai ymatebion yn poeni ynghylch y gost o ostwng oed pleidleisio.

Roedd 66 allan o  bob 100 o ymatebion yn meddwl y dylai pawb sy'n byw yng Nghymru yn gyfreithlon gael pleidleisio, ble bynnag y cawson nhw eu geni.

Roedd 54 allan o bob 100 o ymatebion yn meddwl y dylai carcharorion sydd wedi cael caniatâd i adael y carchar am amser byr gael pleidleisio. A hefyd y rhai sy'n byw gartref dan reolau llym.

Roedd 34 allan o bob 100 o ymatebion yn meddwl **na** ddylai'r carcharorion hyn gael yr hawl i bleidleisio.

Roedd 49 allan o bob 100 o ymatebion yn dweud y dylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio mewn etholiad y Cynulliad os byddan nhw'n gadael y carchar cyn yr etholiad nesaf.

Roedd 37 allan o bob 100 o ymatebion yn meddwl na ddylai'r carcharorion hyn gael yr hawl i bleidleisio.

Un rheswm gafodd ei roi gan rai o'r ymatebion am hyn oedd bod colli rhai hawliau yn rhan o'r gosb.

Dywedodd **Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru** y dylai unrhyw newidiadau i'r gyfraith ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael eu gwneud erbyn 2020.

Mae **Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru** yn helpu i redeg a rheoli digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud ag etholiadau.

# Pwy ddylai gael bod yn Aelod o'r Cynulliad?

Fe ofynnon ni a ddylen ni newid y gyfraith i'w gwneud hi'n haws i bobl sydd mewn rhai swyddi ymgeisio mewn etholiad.

Byddai hyn yn meddwl na fyddai pobl sy'n gwneud rhai swyddi yn gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi cyn ymgeisio mewn etholiad.




Gallwch ddarllen am hyn ar dudalen 32 yn **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma roedd y bobl oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i ddweud:**

Roedd 34 allan o bob 100 o'r ymatebion yn cytuno na ddylai pobl sy'n gwneud rhai swyddi orfod rhoi'r gorau i'w gwaith cyn ymgeisio mewn etholiad.

Roedd 13 allan o bob 100 o ymatebion yn anghytuno ac yn dweud y dylen nhw roi'r gorau i'w swyddi.

Nid oedd yr ymatebion eraill yn cytuno nac yn anghytuno. Yn yr ymatebion eraill dywedodd pobl:

- Beth roedden nhw'n feddwl am ein syniadau heb gytuno nac anghytuno.

- Na wnaethon nhw ddeall y cwestiwn.

- Nad oedden nhw'n siŵr beth oedd orau.

# Rhedeg etholiadau




Fe ofynnon ni i bobl a ddylen ni newid y rheolau ynghylch rhedeg etholiadau. Gallwch ddarllen am hyn ar dudalennau 33-34 yn **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Fe ofynnon ni:**

Ydych chi'n meddwl na ddylai'r arian mae'n gostio i gyfieithu pethau rhwng Cymraeg a Saesneg gael ei gynnwys yn y swm y mae pleidiau gwleidyddol yn cael ei wario mewn etholiadau?

**Dyma roedd y bobl oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i ddweud:**

- Roedd 71 allan o bob 100 o ymatebion yn cytuno **na** ddylai gael ei gyfrif.

- Un o'r rhesymau oedd bod gan Gymru ddwy iaith felly dylai'r ddwy gael eu defnyddio'n gyfartal.

**Fe ofynnon ni:**

Ydych chi'n meddwl na ddylai'r arian sy'n cael ei wario oherwydd bod gan berson anabledd gael ei gynnwys yn y swm y mae pleidiau gwleidyddol yn cael ei wario mewn etholiadau?

- Roedd 86 allan o bob 100 o bobl yn cytuno **na** ddylai gael ei gyfrif.

- Y rheswm mwyaf cyffredin gafodd ei roi oedd er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal.

**Fe ofynnon ni:**

Ydych chi'n meddwl y dylen ni wneud newidiadau i'r gyfraith ynglŷn â'r ffordd y mae etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu rhedeg?

Byddai'r newidiadau yn ein helpu i wneud y gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau yn well. Byddai'r newidiadau'n cael eu gwneud mewn ffyrdd sy'n cael eu hawgrymu gan **Gomisiwn y Gyfraith**.

Mae **Comisiwn y Gyfraith** yn edrych ar y gyfraith ac yn awgrymu newidiadau i'w gwneud yn well. Mae'n fudiad annibynnol.

- Roedd 57 allan o bob 100 o ymatebion yn cytyno â hyn.

- Roedd pobl yn credu bod angen y newidiadau oherwydd bod Comisiwn y Gyfraith yn dweud hynny.

- Roedd pedwar allan o bob 100 o ymatebion yn anghytuno â gwneud y newidiadau.

- Dywedodd 15 allan o bob 100 o bobl bod arnyn nhw angen meddwl mwy amdano. Neu doedden nhw ddim yn deall.

# Gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei redeg

Fe ofynnon ni a ddylen ni newid y gyfraith i gael mwy o reolaeth dros y ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei redeg.




Gallwch ddarllen am hyn ar dudalen 35 o **Creu Senedd i Gymru – Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**.

**Dyma roedd y bobl oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i ddweud:**

- Roedd 60 allan o bob 100 o ymatebion yn dweud y dylen ni newid y gyfraith.

- Roedd llawer o ymatebion yn meddwl y byddai hyn yn helpu i redeg y Cynulliad Cenedlaethol yn well.

- Roedd rhai ymatebion yn dweud y dylen ni ofyn mwy i'r cyhoedd ynglŷn â hyn cyn i ni wneud newidiadau.

- Roedd nifer fach o ymatebion yn poeni am gostau.

- Roedd rhai ymatebion yn dweud y dylai pob plaid wleidyddol gael rhoi eu barn ar unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud.

- Roedd rhai ymatebion yn meddwl na ddylai'r gyfraith gael ei newid.

# Pa bethau all fod yn wahanol ar ôl gwneud y newidiadau?

Fe ofynnon ni a fyddai'r newidiadau yn gwneud gwahaniaeth:

- i wahanol grwpiau o bobl

- i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg

- i'r ffordd y mae'r gyfraith yn gweithio yng Nghymru a Lloegr.

Dywedodd rhai ymatebion wrthyn ni am y gwahaniaeth y gallai'r newidiadau ei wneud i'r pethau hyn. Dywedodd ymatebion eraill wrthyn ni am wahaniaethau eraill y gallai'r newidiadau eu gwneud.

Roedd rhai ymatebion yn meddwl y gallai'r newidiadau wneud gwahaniaeth.

Roedd rhai ymatebion yn dweud y byddai'r newidiadau yn well i Gymru.

Roedd rhai ymatebion yn dweud y byddai'r newidiadau yn helpu i wneud Cymru yn fwy annibynnol.

Roedd rhai ymatebion yn poeni am y costau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i bobl sy'n talu treth.

Roedd nifer o'r ymatebion am i Gymru fod yn gyfrifol am yr heddlu a charchardai.

Roedd nifer o ymatebion yn dweud eu bod am i'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio mwy. Ond roedd yr un faint yn dweud nad oedden nhw am i'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio mwy.

Roedd rhai ymatebion yn dweud y byddai'r newidiadau yn helpu i'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio mwy.

# Geiriau anodd

## Aelod o'r Cynulliad

Mae Aelodau'r Cynulliad yn bobl sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl cael pobl o wahanol grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod neu hen ac ifainc.

## Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

Mae'r Bwrdd yn helpu i redeg a rheoli digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud ag etholiadau.

## Comisiwn y Gyfraith

Mae Comisiwn y Gyfraith yn edrych ar y gyfraith ac yn awgrymu newidiadau i'w gwneud yn well. Mae'n fudiad annibynnol.

## Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn dewis o restr o bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

Mae'r pleidiau yn dewis pa drefn y mae eu hymgeiswyr yn cael eu rhestru. Mae pleidleiswyr yn gallu dewis pleidleisio dros drefn y blaid. Neu gall bleidleiswyr bleidleisio dros eu hoff ymgeisydd.

Os bydd digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, bydd yr ymgeisydd hwnnw yn mynd i ben y rhestr.

Os nad oes digon o bleidleiswyr yn dewis yr un ymgeisydd, yna bydd ymgeiswyr yn aros yn y drefn y bydd y blaid yn ei dewis.

Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddewis pa ymgeiswyr fydd yn cael y seddau.

## Etholaeth

Eich etholaeth yw eich ardal leol. Mae rhywun yn siarad ar ran eich ardal leol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Er enghraifft, mae Caerffili yn etholaeth yn Ne Cymru a Wrecsam yn etholaeth yng Ngogledd Cymru.

## Etholiadau Llywodraeth Leol

Mae'n etholiad llywodraeth leol pan fyddwch chi'n pleidleisio ar gyfer person y buasech chi'n hoffi ei gael i redeg eich cyngor lleol.

## Plaid Wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac mae ganddyn nhw ymgeisydd ar gyfer etholiad.

Mae pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Y Blaid Lafur Gymreig
- Y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig.

## Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl (STV)

Yn y system hon mae pleidleiswyr yn gosod yr ymgeiswyr yn ôl y rhai maen nhw'n eu hoffi orau. Er enghraifft, rhif 1 fyddai eu hoff ymgeisydd. Rhif 2 fyddai eu 2ail hoff ymgeisydd.

Byddai pob etholaeth yn dewis mwy nag un person i sefyll ar eu rhan.

## Rhanbarth

Y mae pum rhanbarth y Cynulliad:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gorllewin De Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru.

## Rhannu swydd

Mae rhannu swydd yn digwydd pan fydd dau o bobl yn rhannu gwaith un rôl.

## System Gynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP)

Mae'r System Gynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP) yn ffordd o drefnu sut y mae senedd yn cael ei wneud allan o'r aelodau sy'n cael eu hethol. Mae'n haws ei alw'n System yr MMP.

Yn System yr MMP rydych chi'n cael dwy bleidlais. Mae eich pleidlais gyntaf i'r person yr hoffech chi ei gael i gynrychioli eich etholaeth.

Mae'r 2ail bleidlais ar gyfer plaid wleidyddol i gynrychioli eich rhanbarth.

## Trafodaeth

Mae trafodaeth yn digwydd pan fydd pobl yn siarad am eu barn ar bethau. Efallai y bydd pleidlais arnyn nhw er mwyn gwneud penderfyniad